I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC25-30

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Mai 2025* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mehefin 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 10, 12(3), 81, 82, 203(9) a (10), a 204(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) 2025.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Mehefin 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "claf cofrestredig" ("*registered patient*") yw—

(a) person sydd wedi ei gofnodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol fel rhywun sydd ar restr o gleifion contractwr GMC, neu

(b) person y mae'r contractwr GMC wedi ei dderbyn i'w gynnwys ar ei restr o gleifion, pa

(**1**) 2006 p. 42. Mae diwygiadau i adrannau 10 a 203 nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

un a yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cael ei hysbysu bod y person hwnnw wedi ei dderbyn ai peidio, ac nad yw wedi cael ei hysbysu gan y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod wedi peidio â bod ar y rhestr honno,

ac sy'n gymwys i gael gwasanaethau brechu o dan y Cynllun gan ei fod yn dod o fewn carfan gymwys a bennir ym mharagraff 5 o'r fanyleb berthnasol;

ystyr "clwstwr" ("*cluster*") yw grŵp o ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ac sydd wedi cytuno i gydweithredu i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr "contractwr GDC" ("*GDS contractor*") yw person sy'n barti i gontract gyda Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag adran 57 o'r Ddeddf;

ystyr "contractwr GMC" ("*GMS contractor*") yw person sy'n barti i gontract gyda Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag adran 42 o'r Ddeddf;

ystyr "contractwr GOC" ("*GOS contractor*") yw person sydd wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig Bwrdd Iechyd Lleol ac sy'n darparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023(**1**);

ystyr "Cynllun" ("*Scheme*") yw'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Cynllun Imiwneiddio ar gyfer ffliw a sefydlir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff 3;

ystyr "darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen" ("*engaged provider*") yw contractwr GDC, contractwr GMC (pa un a yw'n gweithredu drosto'i hun, fel practis arweiniol clwstwr neu ar ran practis arall neu grŵp o bractisau eraill), contractwr GOC neu fferyllydd GIG sy'n cytuno â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau o dan y Cynllun yn unol â threfniant a wneir yn unol â pharagraff 4;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "fferyllydd GIG" ("*NHS pharmacist*") yw person y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr fferyllol o dan reoliad 10 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**2**) (llunio a chynnal rhestrau fferyllol), ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol, yn benodol drwy ddarparu cyffuriau, ac—

(**1**) O.S. 2023/1053 (Cy. 179).
(**2**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).

(a) sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 1 o Gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol(**1**), neu yn y gofrestr a gynhelir o dan Erthyglau 6 a 9 o Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976(**2**), neu

(b) sy'n cynnal busnes fferyllfa fanwerthu yn gyfreithlon yn unol ag adran 69 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(**3**);

ystyr "gwasanaethau GIG" ("*NHS services*") yw gwasanaethau offthalmig, gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol neu wasanaethau meddygol sylfaenol (fel y bo'n briodol i'r darparwr perthnasol sydd wedi ei gymryd ymlaen) a ddarperir yn unol â Rhannau 4 i 7 o'r Ddeddf yn rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru;

ystyr "Iechyd Cyhoeddus Cymru" ("*Public Health Wales*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**4**);

ystyr "manyleb berthnasol" ("*relevant specification*") yw'r fanyleb sydd wedi ei chynnwys yn yr Atodlen i'r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr "Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru" ("*NHS Wales Shared Services Partnership*") yw Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre a sefydlwyd gan reoliad 3 o Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**5**);

ystyr "practis arweiniol clwstwr" ("*cluster lead practice*") yw contractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu'r Cynllun i'w gleifion cofrestredig, ac i gleifion cofrestredig contractwr GMC yn ei glwstwr nad yw'n ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, ac y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno y bydd yn bractis arweiniol clwstwr;

(**1**) A gynhelir o dan erthygl 19 o Orchymyn Fferylliaeth 2010 (sefydlu a chynnal y Gofrestr a mynediad iddi). Diwygiwyd erthygl 19 gan reoliad 3 o O.S. 2019/593 a pharagraff 9 o Atodlen 2 iddo.

(**2**) O.S. 1976/1213 (G.I. 22). Diwygiwyd Erthygl 6 gan reoliad 5 o O.S. 2008/192, a rheoliad 2 o O.S. 2019/585 a pharagraff 6 o'r Atodlen iddo. Diwygiwyd Erthygl 9 gan reoliad 2 o O.S. 2019/585 a pharagraff 13 o'r Atodlen iddo, ac erthygl 10 o O.S. 2022/849.

(**3**) 1968 p. 67. Diwygiwyd adran 69 gan adran 1 o Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50) a Rhan XII o Atodlen 1 iddi; erthygl 67 o O.S. 2007/289 a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddo; erthygl 68 o O.S. 2010/231 a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddo; rheoliad 3 o O.S. 2019/593 a pharagraff 4 o Atodlen 2 iddo.

(**4**) O.S. 2009/2058 (Cy. 177).

(**5**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156).

ystyr “System Imiwneiddio Cymru” (“*Welsh Immunisation System*”) yw’r system wybodaeth ar gyfer rheoli, dosbarthu ac adrodd ar frechiadau.

**Sefydlu Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Cynllun Imiwneiddio**

**3.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu, gweithredu ac, fel y bo’n briodol, ddiwygio Cynllun yn unol â’r Cyfarwyddydau hyn a’r fanyleb berthnasol.

(2) Diben sylfaenol y Cynllun yw galluogi darparu gwasanaethau i roi brechiadau ac imiwneiddiadau ffliw yn rhan o’r gwasanaeth iechyd yng Nghymru gan ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen i bersonau 16 mlwydd oed a hŷn ar yr amod eu bod—

(a) wedi cyrraedd 16 oed ar neu erbyn 31 Awst (cyn dechrau’r tymor brechu) yn y flwyddyn y mae’r brechu’n ymwneud â hi, a

(b) yn gymwys i gael gwasanaethau brechu o dan y Cynllun gan eu bod yn dod o fewn carfan gymwys a bennir ym mharagraff 5 o’r fanyleb berthnasol.

**Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Cynllun Imiwneiddio ar gyfer ffliw**

**4.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol geisio ymrwymo i drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau o dan y Cynllun, yn y lle cyntaf gydag—

(a) contractwyr GMC—

(i) mewn perthynas â’u cleifion cofrestredig;

(ii) fel practis arweiniol clwstwr, mewn perthynas â chleifion cofrestredig practis arweiniol y clwstwr a chleifion cofrestredig y contractwyr GMC hynny yn ei glwstwr, os oes rhai, nad ydynt wedi cytuno o fewn unrhyw gyfnod amser sy’n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu’r Cynllun i’w cleifion cofrestredig yn unol ag is-baragraff (i);

(iii) mewn perthynas â chleifion cofrestredig contractwr GMC arall neu grŵp arall o gontractwyr GMC, pan fo’r contractwr GMC hwnnw wedi cytuno i ddarparu’r Cynllun yn unol ag is-baragraff (i), yn amodol ar gytundeb y contractwr GMC arall neu’r grŵp arall o gontractwyr GMC, neu

(b) (ar gyfer personau o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol a’r tu allan iddi) fferyllwyr GIG sydd wedi eu cynnwys yn ei restr fferyllol ac—

(i) sy’n darparu’r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol o dan drefniant

gyda Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 6 o'r Cyfarwyddydau Gwasanaethau Clinigol(**1**) (y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol);

(ii) sy'n dymuno ymrwymo i drefniant i ddarparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun ac yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am eu bwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd 3(2) o'r Cyfarwyddydau Gwasanaethau Clinigol (materion cyffredinol a rhagamodau ar gyfer gwneud trefniadau);

(iii) sy'n bodloni'r amodau a nodir yng nghyfarwyddyd 3(3) i (7) o'r Cyfarwyddydau Gwasanaethau Clinigol(**2**).

(2) Pan na fydd cleifion cofrestredig contractwr GMC yn cael y gwasanaethau o dan y Cynllun gan gontractwyr GMC o dan is-baragraff (1)(a), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu i gleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw drwy ddarparu'r gwasanaethau ei hun neu drefnu i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu gan unrhyw ddarparwr arall sydd wedi ei gymryd ymlaen.

(3) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud trefniadau i ddarparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun ei hun, neu'n trefnu i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu gan unrhyw ddarparwr arall sydd wedi ei gymryd ymlaen, rhaid darparu'r gwasanaethau mor agos at fangre practis y contractwr GMC hwnnw ag sy'n rhesymol ymarferol.

(4) Rhaid i drefniant a wneir rhwng practis arweiniol clwstwr a Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (1)(a)(ii) gynnwys gofyniad bod pob darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cydweithredu â'r darparwyr eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen a phractis arweiniol y clwstwr yn ei glwstwr er mwyn i bractis arweiniol y clwstwr gwblhau, erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blan sy'n nodi'r trefniant ar gyfer darparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun i holl gleifion cofrestredig y contractwyr GMC ar draws y clwstwr gan gynnwys, fan lleiaf—

(a) y dyddiadau a'r amseroedd pan fydd gwasanaethau o dan y Cynllun yn cael eu darparu, a

(b) unrhyw fanylyn neu sicrwydd arall y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdano gan bractis arweiniol y clwstwr.

---

(**1**) *Gweler* is-baragraff (9) am y diffiniad o "Cyfarwyddydau Gwasanaethau Clinigol".

(**2**) *Gweler* is-baragraff (9) am y diffiniad o "Cyfarwyddydau Gwasanaethau Clinigol".

(5) Mae is-baragraff (4) yn gymwys pa un a yw contractwr GMC sy'n aelod o'r clwstwr yn ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen ai peidio.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), pan nad oes ond un darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, a hwnnw yw practis arweiniol y clwstwr, mae'n gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw.

(7) Pan wneir trefniadau rhwng Bwrdd Iechyd Lleol a darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys—

(a) gofyniad bod y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen—

(i) yn ystyried y Cyfarwyddydau hyn ac yn darparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun yn unol â'r fanyleb berthnasol;

(ii) yn cynnal cofnod ar System Imiwneiddio Cymru o bob person sy'n cael y gwasanaethau o dan y Cynllun, ac yn diweddaru'r cofnod hwnnw'n barhaus;

(iii) yn darparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol gan y fanyleb berthnasol ac, fel y bo'n briodol, yn unol â'r plan a bennir yn is-baragraff (4) uchod neu is-baragraff (iv) isod;

(iv) yn cwblhau, er boddhad y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn y darperir unrhyw wasanaethau o dan y Cynllun ac erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blan sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen gan gynnwys, fan lleiaf—

(aa) y dyddiadau a'r amseroedd pan fydd gwasanaethau o dan y Cynllun yn cael eu darparu, a

(bb) unrhyw fanylyn neu sicrwydd arall y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdano gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen;

(v) mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol y mae'r trefniadau'n ymwneud â hi—

(aa) yn cynnig gwasanaethau o dan y Cynllun yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi ac yn dod i ben â 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol honno, a

(bb) yn canolbwyntio'r rhaglen imiwneiddio yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Hydref ac yn dod

i ben â 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ariannol;

(b) gofyniad bod y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod System Imiwneiddio Cymru yn cael ei diweddaru cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl i berson gael brechiad, ac erbyn diwedd y dydd ar y diwrnod y rhoddir brechiad fan bellaf;

(c) gofyniad bod rhaid i’r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen ddefnyddio System Imiwneiddio Cymru at y dibenion a ganlyn ac i gofnodi’r wybodaeth a ganlyn, yn benodol, ar System Imiwneiddio Cymru—

(i) unrhyw gynnig o frechiad sy’n cael ei wrthod,

(ii) pan fo cynnig o frechiad wedi ei dderbyn—

(aa) manylion y cydsyniad i’r brechiad neu’r imiwneiddio (pan fo person wedi cydsynio ar ran person arall, rhaid i berthynas y person hwnnw â’r person sy’n cael y brechlyn gael ei chofnodi hefyd);

(bb) rhif swp, dyddiad dod i ben a theitl y brechlyn;

(cc) enw’r person sy’n rhoi’r brechlyn;

(dd) dyddiad ac amser rhoi’r brechlyn;

(ee) pan fo mwy nag un brechlyn yn cael ei roi, llwybr rhoi pob dos o’r brechlyn a safle pigiad pob dos o’r brechlyn;

(ff) unrhyw wrtharwydd i’r brechlyn neu’r imiwneiddio;

(gg) unrhyw adwaith niweidiol ar unwaith i’r brechlyn neu’r imiwneiddio,

(iii) cael danfoniad o’r brechlyn ar y diwrnod y ceir y danfoniad hwnnw,

(iv) balans gwirio stoc dyddiol y brechlyn ar bob diwrnod gwaith cyn diwedd pob diwrnod gwaith,

(v) tymheredd neu dymereddau’r oergell lle mae brechlynnau’n cael eu storio, ddwywaith y dydd (ar ddechrau a diwedd y dydd) ar bob diwrnod gwaith, yn unol â chanllawiau cenedlaethol,

(vi) os bydd hynny’n ofynnol, cyflenwi gwybodaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru am bersonau y maent wedi rhoi brechlyn iddynt o dan y Cynllun, drwy echdynnu data’n awtomatig, at ddiben monitro faint

sy'n cael y brechlyn yn lleol ac yn genedlaethol,

(vii) cyflenwi gwybodaeth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am bersonau sydd wedi cael brechlyn o dan y Cynllun, at ddibenion talu ac, os bydd hynny'n ofynnol, at ddibenion gwirio ôl-dalu, ac

(viii) darparu data, i bractis arweiniol y clwstwr ar gyfer clwstwr (pan fo hynny'n gymwys), i Fyrddau Iechyd Lleol, i gyrff eraill y GIG, ac i Lywodraeth Cymru, pan fo hynny'n ofynnol;

(d) gofyniad bod rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen gadw at y gofynion cyflenwi, storio a gwastraff ym mharagraff 8 o'r fanyleb berthnasol a'r canllawiau cyfredol ym mhennod 3 (Storio, dosbarthu a gwaredu brechlynnau) yn yr argraffiad diweddaraf o'r "Llyfr Gwyrdd"(**1**) ar adeg rhoi'r brechiad;

(e) gofyniad bod y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen—

(i) yn sicrhau codio cyson ar gyfer cipio data a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ynghylch llywodraethu gwybodaeth;

(ii) yn sicrhau bod gan bob person sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun y sgiliau, yr hyfforddiant, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaethau hynny;

(iii) yn sicrhau bod pob person sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun yn cwblhau unrhyw hyfforddiant perthnasol a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a bod y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cadw cofnod i gadarnhau bod pob person o'r fath wedi ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol cyn cymryd rhan yn y gwaith o roi brechiadau;

(iv) yn sicrhau bod pob person sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun yn cwblhau gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) perthnasol drwy, er enghraifft, ddiweddaru ei addysg yn rheolaidd, mynd ar gyrsiau perthnasol a ddarperir gan Fyrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â dilyn dysgu

(**1**) ystyr "Llyfr Gwyrdd" yw'r cyhoeddiad 'Immunisation against infectious disease', sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book.

hunangyfeiriedig, er mwyn gallu dangos bod ganddo wybodaeth ddigonol a sgiliau digonol drwy ei arfarniad ac ailddilysiad blynyddol;

(v) yn sicrhau bod pob person sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun wedi ei indemnio/ei yswirio'n ddigonol am unrhyw atebolrwydd sy'n codi o'r gwaith sy'n cael ei wneud;

(vi) yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro'r modd y cyflawnir rhwymedigaethau o dan y Cynllun ac, fel y bo'n briodol, berfformiad y clwstwr mewn perthynas â'r plan a bennir yn is-baragraff (4) neu berfformiad y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen mewn perthynas â'r plan a bennir yn is-baragraff (7)(a)(iv);

(vii) yn rhoi o leiaf y cyfnod hysbysu byrraf a nodir ym mharagraff 9 o'r fanyleb berthnasol i'w Fwrdd Iechyd Lleol, yn ysgrifenedig, cyn terfynu ei drefniadau i ddarparu gwasanaethau o dan y Cynllun;

(f) trefniadau talu ar gyfer darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, y mae rhaid iddynt ddarparu iddo allu hawlio yn unol â pharagraff 7 o'r fanyleb berthnasol daliad o—

(i) £10.03 am bob dos o frechlyn ffliw a roddir,

(ii) yn ogystal â'r ffi a bennir yn is-baragraff (i), ac am y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi 2025 ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2027, £2.75 am bob dos o frechlyn ffliw a roddir.

(8) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn darparu'r Cynllun yn unol â threfniant yn unol ag is-baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod is-baragraff (7) yn gymwys i drefniadau o'r fath fel y byddai'n gymwys i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen.

(9) Yn y paragraff hwn, ystyr "Cyfarwyddydau Gwasanaethau Clinigol" yw'r cyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol o dan adrannau 81 a 82 o'r Ddeddf mewn perthynas â gwneud trefniadau gyda fferyllwyr GIG ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol.

### Cymhwystra ac amodau ar gyfer talu

**5.**—(1) Ni fydd darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen ond yn gymwys i gael ei dalu am ddarparu gwasanaethau o dan y Cynllun mewn amgylchiadau pan fo'r amodau a ganlyn yn cael eu bodloni—

(a) os yw'n ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen nad yw'n gontractwr GMC nac yn fferyllydd GIG, roedd y person yr hawlir y taliad am roi brechlyn ffliw mewn cysylltiad ag ef wedi ei neilltuo i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen gytundeb ag ef i ddarparu gwasanaethau o dan y Cynllun;

(b) nid yw'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael unrhyw daliad o unrhyw ffynhonnell arall mewn cysylltiad â brechlyn ffliw, ond os yw'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael taliadau o ffynonellau eraill mewn cysylltiad ag unrhyw berson, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried a ddylid adennill unrhyw daliad a wnaed o dan y Cynllun mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn unol â pharagraff 7 (gordaliadau a symiau a gedwir yn ôl);

(c) os yw'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, at ddiben creu cofnod clinigol o imiwneiddio, mewn cysylltiad â phob person yr hawlir taliad o dan y Cynllun amdano, wedi cyflenwi i'r Bwrdd Iechyd Lleol drwy System Imiwneiddio Cymru—

(i) enw'r person,

(ii) dyddiad geni'r person,

(iii) rhif GIG y person (os yw'n hysbys), a

(iv) dyddiad rhoi pob dos o'r brechlyn;

(d) mae'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn creu'r cofnod clinigol ar System Imiwneiddio Cymru erbyn diwedd y dydd ar y diwrnod y rhoddir brechlyn.

(2) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen am unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol mohoni ond y mae ei hangen arno, ac sydd naill ai gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo gael gafael arni, er mwyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ffurfio barn ynghylch a yw'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn gymwys i gael taliad o dan ddarpariaethau'r Cynllun.

(3) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol ac yn unol â pharagraff 7, gadw'n ôl unrhyw daliadau sy'n ddyledus o dan y Cynllun, neu unrhyw ran ohonynt, os bydd darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau hyn.

**Taliad o dan y Cynllun**

**6.**—(1) Pan fo'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn bodloni gofynion o dan baragraff 5, bydd y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael taliad

awtomatig yn seiliedig ar yr wybodaeth a gofnodir ar System Imiwneiddio Cymru mewn cysylltiad â phob person sydd wedi cael brechlyn a bydd gweithgarwch y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael ei gipio gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel y bydd ar y degfed diwrnod o bob mis calendr.

(2) Bydd unrhyw swm sy'n daladwy yn unol ag is-baragraff (1) yn dod yn ddyledus ar ôl i 14 o ddiwrnodau fynd heibio ar ôl i'r gweithgarwch gael ei gipio o dan is-baragraff (1) a bydd taliad awtomatig yn cael ei wneud fel a ganlyn—

(a) yn achos contractwr GDC, ar y dyddiad nesaf pan fydd Taliad Gwerth Contract Blynyddol misol taladwy y contractwr GDC yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad perthnasol ar Hawlogaethau Ariannol;

(b) yn achos contractwr GMC, ar y dyddiad nesaf pan fydd taliad misol Swm Craidd y contractwr GMC yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad perthnasol ar Hawlogaethau Ariannol;

(c) yn achos contractwr GOC, ar y dyddiad yn y mis nesaf pan fydd ad-daliad misol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol y contractwr GOC yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad o Dâl;

(d) yn achos fferyllydd GIG, ar y dyddiad nesaf pan fydd y fferyllydd GIG yn cael unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus o dan y Tariff Cyffuriau.

(3) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y dderbynneb a'r taliad mewn cysylltiad ag unrhyw daliadau awtomatig a wneir yn unol ag is-baragraff (1) yn cael eu cofnodi'n briodol a bod trywydd archwilio clir gan bob taliad.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol" ("*Statement of Financial Entitlements*") yw unrhyw gyfarwyddydau, am y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol, a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag—

(a) adran 45 o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GMC, neu

(b) adran 60 o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GDC;

ystyr "Datganiad o Dâl" ("*Statement of Remuneration*") yw unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 76 o'r Ddeddf, a rheoliad 31 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, mewn perthynas â thaliadau sydd

i'w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GOC;

mae i "Tariff Cyffuriau" ("*Drug Tariff*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 55 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**1**) (y Tariff Cyffuriau a thâl ar gyfer fferyllwyr GIG a chontractwyr cyfarpar GIG).

### Gordaliadau a symiau a gedwir yn ôl

**7.**—(1) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-baragraff (3), adennill arian a dalwyd i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen o dan y Cynllun drwy ddidynnu swm cyfatebol o unrhyw daliad sy'n daladwy o dan y Cynllun, neu unrhyw daliad arall sy'n daladwy i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn rhinwedd y ffaith ei fod yn darparu gwasanaethau GIG.

(2) Pan na ellir gwneud didyniad fel y'i disgrifir o dan is-baragraff (1), mae'n amod o'r taliadau a wneir yn unol â'r Cynllun fod rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol y swm cyfatebol hwnnw.

(3) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud taliad i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn unol â'r Cynllun ac—

(a) nid oedd gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen hawlogaeth i gael y taliad cyfan neu ran ohono, pa un ai oherwydd nad oedd yn bodloni'r amodau hawlogaeth i gael y taliad neu oherwydd i'r taliad gael ei gyfrifo'n anghywir (gan gynnwys pan fo taliad ar gyfrif yn goramcangyfrif y swm sydd i ddod yn ddyledus),

(b) roedd hawlogaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gadw yn ôl y taliad cyfan neu ran ohono oherwydd bod amod oedd ynghlwm wrth y taliad wedi ei dorri, ond ni all wneud hynny oherwydd bod yr arian wedi ei dalu eisoes, neu

(c) mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gael ad-daliad o'r holl arian a dalwyd neu ran ohono.

(4) Pan fo hawlogaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (1) i gadw yn ôl daliad cyfan neu ran ohono oherwydd bod amod talu wedi ei dorri, a phan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud hynny neu'n adennill yr arian drwy ddidynnu swm cyfatebol o daliad arall sy'n daladwy o dan y Cynllun, neu o unrhyw daliad arall sy'n daladwy i ddarparwr sydd

(**1**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).

wedi ei gymryd ymlaen yn rhinwedd y ffaith ei fod yn darparu gwasanaethau GIG, caiff ad-dalu i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, pan fo'n gweld ei bod yn addas gwneud hynny, y swm a gadwyd yn ôl neu'r swm a adenillwyd, os yw'r tor-amod yn cael ei unioni.

## Tandaliadau a thaliadau hwyr

**8.**—(1) Os nad yw swm llawn taliad sy'n daladwy o dan y Cynllun wedi cael ei dalu cyn y dyddiad y mae'r taliad yn dod yn ddyledus, unwaith y mae'n dod yn ddyledus, rhaid iddo gael ei dalu'n brydlon oni bai—

(a) bod y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen wedi cydsynio i daliad hwyrach, neu

(b) bod swm y taliad, neu'r hawlogaeth i gael y taliad, neu unrhyw ran ohono, yn destun anghydfod.

(2) Os nad yw hawlogaeth y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen i gael y taliad yn destun anghydfod ond bod swm y taliad yn destun anghydfod, yna unwaith y mae'r taliad yn dod yn ddyledus, wrth aros i'r anghydfod gael ei ddatrys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) talu, yn brydlon, i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen swm sy'n cynrychioli'r swm y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn derbyn y mae gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen hawlogaeth i'w gael o leiaf, a

(b) wedi hynny dalu unrhyw ddiffyg yn brydlon, unwaith y mae'r anghydfod wedi ei ddatrys yn derfynol.

(3) Fodd bynnag, os yw darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen—

(a) heb hawlio taliad y byddai ganddo hawlogaeth iddo o dan y Cynllun pe bai'n hawlio'r taliad, neu

(b) wedi hawlio taliad y mae ganddo hawlogaeth iddo o dan y Cynllun ond na all Bwrdd Iechyd Lleol gyfrifo'r taliad tan ar ôl y dyddiad y mae'r taliad i ddod yn ddyledus oherwydd nad oes ganddo'r wybodaeth y mae ei hangen arno er mwyn cyfrifo'r taliad hwnnw (ar ôl gwneud pob ymdrech resymol i gael yr wybodaeth),

mae'r taliad hwnnw (yn lle hynny) i ddod yn ddyledus ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis ar ôl y mis pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn cyfrifo'r taliad.

## Taliadau ar gyfrif

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), pan fo Bwrdd Iechyd Lleol a'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cytuno, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu

ar gyfrif i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen unrhyw swm sydd—

(a) yn swm taliad, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus o dan y Cynllun, neu

(b) yn ganran gytunedig o swm taliad, neu o amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus o dan y Cynllun, ac os yw'r taliad hwnnw yn arwain at ordaliad mewn cysylltiad â'r taliad, mae paragraff 7 yn gymwys.

(2) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dynnu ei gytundeb yn ôl o dan is-baragraff (1)—

(a) pan fo'n rhesymol gwneud hynny, a

(b) pan fo wedi rhoi i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen hysbysiad rhesymol o dynnu ei gytundeb yn ôl.

### Gwirio ôl-dalu

**10.** Gall gwirio ôl-dalu(**1**) fod yn gymwys i ddarparu gwasanaethau o dan y Cynllun.

### Datrys anghydfodau

**11.**—(1) Yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cynllun, neu mewn cysylltiad ag ef, rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen a'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd gyda golwg ar ddatrys yr anghydfod, cyn atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i'w ystyried ac i benderfynu arno yn unol â gweithdrefn datrys anghydfodau'r Cynllun (neu, pan fo'n gymwys, cyn cychwyn achos llys) a bennir yn is-baragraffau (2) i (15).

(2) Mae'r weithdrefn a bennir yn yr is-baragraffau a ganlyn yn gymwys yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cynllun neu mewn cysylltiad ag ef ac a atgyfeirir at Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (2) anfon at Weinidogion Cymru gais ysgrifenedig i ddatrys anghydfod a rhaid iddo gynnwys y canlynol neu rhaid i'r canlynol ddod gydag ef—

(a) enwau a chyfeiriadau'r partïon i'r anghydfod,

(b) copi o unrhyw drefniant a wnaed o dan y Cynllun, ac

(c) datganiad byr sy'n disgrifio natur ac amgylchiadau'r anghydfod.

---

(**1**) I gael rhagor o wybodaeth am wirio ôl-dalu, gweler: https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/gwybodaeth-gyffredinol/dilysu-ar-ol-talu/.

(4) Rhaid i unrhyw barti sy’n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y’i crybwyllir yn is-baragraff (2) anfon y cais o dan is-baragraff (3) o fewn cyfnod o 3 blynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y digwyddodd y mater a arweiniodd at yr anghydfod neu â’r dyddiad y dylai’r mater yn rhesymol fod wedi dod i sylw’r parti sy’n dymuno atgyfeirio’r anghydfod.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar y mater eu hunain neu, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, benodi person neu bersonau i’w ystyried a phenderfynu arno.

(6) Cyn dod i benderfyniad ynghylch pwy a ddylai benderfynu ar yr anghydfod, o dan is-baragraff (5), rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 7 niwrnod gan ddechrau â’r dyddiad yr atgyfeiriwyd mater sy’n destun anghydfod atynt, anfon cais ysgrifenedig at y partïon i gyflwyno yn ysgrifenedig, o fewn cyfnod penodedig, unrhyw sylwadau y gallant fod yn dymuno eu cyflwyno ynghylch y mater sy’n destun anghydfod.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru, gyda’r cais ysgrifenedig a roddir o dan is-baragraff (6), roi i’r parti ac eithrio’r un a atgyfeiriodd y mater ar gyfer datrys anghydfod, gopi o unrhyw ddogfen yr atgyfeiriwyd y mater ar gyfer datrys anghydfod drwyddi.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru roi copi o unrhyw sylwadau a geir gan barti i’r parti arall a rhaid iddynt ym mhob achos ofyn (yn ysgrifenedig) i barti y rhoddir copi o’r sylwadau iddo gyflwyno, o fewn cyfnod penodedig, unrhyw arsylwadau ysgrifenedig y mae’n dymuno eu cyflwyno am y sylwadau hynny.

(9) Ar ôl diwedd y cyfnod penodedig ar gyfer cyflwyno sylwadau o dan is-baragraff (6) neu arsylwadau o dan is-baragraff (8), neu, os yw’n gynharach, ar ôl cael unrhyw sylwadau o’r fath gan y partïon, rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn penderfynu penodi person neu bersonau i wrando’r anghydfod—

(a) rhoi gwybod i’r partïon yn ysgrifenedig am enw’r person neu’r personau y maent wedi ei benodi neu eu penodi, a

(b) darparu i’r person neu i’r personau a benodir felly unrhyw ddogfennau a geir gan y partïon o dan is-baragraff (3), (6) neu (8).

(10) At ddiben cynorthwyo’r dyfarnwr i ystyried y mater, caiff y dyfarnwr—

(a) gwahodd cynrychiolwyr i’r partïon i ymddangos gerbron y dyfarnwr i gyflwyno sylwadau llafar naill ai gyda’i gilydd neu, gyda chytundeb y partïon, ar wahân, a chaiff ddarparu ymlaen llaw i’r partïon restr o faterion neu gwestiynau y mae’r dyfarnwr yn dymuno iddynt roi ystyriaeth arbennig iddynt, neu

(b) ymgynghori â phersonau eraill y mae'r dyfarnwr yn ystyried y bydd eu harbenigedd yn helpu wrth iddo ystyried y mater.

(11) Pan fo'r dyfarnwr yn ymgynghori â pherson arall o dan is-baragraff (10)(b), rhaid i'r dyfarnwr hysbysu'r partïon yn unol â hynny yn ysgrifenedig a, phan fo'r dyfarnwr yn ystyried y gallai canlyniad yr ymgynghoriad effeithio'n sylweddol ar fuddiannau unrhyw barti, rhaid i'r dyfarnwr roi i'r partïon unrhyw gyfle y mae'r dyfarnwr yn ystyried ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i gyflwyno arsylwadau am y canlyniadau hynny.

(12) Wrth ystyried y mater, rhaid i'r dyfarnwr ystyried—

(a) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan is-baragraff (6), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig;

(b) unrhyw arsylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan is-baragraff (8), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig;

(c) unrhyw sylwadau llafar a gyflwynir mewn ymateb i wahoddiad o dan is-baragraff (10)(a);

(d) canlyniadau unrhyw ymgynghoriad o dan is-baragraff (10)(b);

(e) unrhyw arsylwadau a gyflwynir yn unol â chyfle a roddir o dan is-baragraff (11).

(13) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau eraill yn y paragraff hwn ac i unrhyw gytundeb gan y partïon, mae gan y dyfarnwr ddisgresiwn eang wrth benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer datrys yr anghydfod i sicrhau bod penderfyniad cyfiawn, diymdroi, darbodus a therfynol yn cael ei wneud ar yr anghydfod.

(14) Rhaid i benderfyniad y dyfarnwr a'r rhesymau drosto gael eu cofnodi yn ysgrifenedig a rhaid i'r dyfarnwr roi hysbysiad o'r penderfyniad (gan gynnwys y cofnod o'r rhesymau) i'r partïon yn yr anghydfod.

(15) Yn y paragraff hwn—

ystyr "cyfnod penodedig" yw'r cyfnod hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu mewn cais ysgrifenedig, sef nid llai na 2, na dim mwy na 4, wythnos gan ddechrau â'r dyddiad pan wneir y cais ysgrifenedig y cyfeirir ato, ond caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod rheswm da dros wneud hynny, estyn unrhyw gyfnod o'r fath (hyd yn oed wedi iddo ddod i ben) a, phan fônt yn gwneud hynny, mae cyfeiriad yn y paragraff hwn at y cyfnod penodedig yn gyfeiriad at y cyfnod fel y'i hestynnir felly.

### Diwygiadau canlyniadol

### Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022

**12.** Yng Nghyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022(**1**), hepgorer cyfarwyddyd 6A(**2**).

### Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Atodol) (Cymru) 2024

**13.**—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Atodol) (Cymru) 2024(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3—

(a) yn y pennawd, hepgorer “General Practice Influenza and”;

(b) hepgorer “General Practice Influenza and”;

(c) hepgorer “influenza or”;

(d) ar y diwedd, yn lle “those infections” rhodder “such infection”.

(3) Ym mharagraff 4—

(a) ym mhob lle y mae’n digwydd (gan gynnwys y pennawd), hepgorer “General Practice Influenza and”;

(b) yn lle is-baragraff (4)(b) rhodder—

“(b) a requirement that the engaged GMS contractor develops and maintains a register (its “Pneumococcal Immunisation Scheme Register”, which may comprise electronically tagged entries in a wider computer database) of all the at-risk patients to whom the engaged GMS contractor is to offer immunisation against pneumococcal infection, and for these purposes a patient is at risk of pneumococcal infection, if the patient is aged 65 or over at the end of that financial year or is aged under 65 and is at risk of infection as defined in the latest edition of the Green Book.”;

(c) yn is-baragraff (4)(c)—

---

(**1**) LlC 2022 Rhif 06.

(**2**) Mewnosodwyd cyfarwyddyd 6A gan Gyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) (Diwygio) 2024 (LlC 2024 Rhif 42).

(**3**) LlC 2024 Rhif 22.

(i) yn is-baragraff (i), hepgorer “influenza and”;

(ii) hepgorer is-baragraff (ii);

(d) yn is-baragraff (4)(d), hepgorer “influenza and”.

**Darpariaeth arbed**

**14.** Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Atodol) (Cymru) 2024 yn parhau i fod yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw frechiadau ffliw a roddir yn unol â’r Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol perthnasol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol Gofal Sylfaenol gan gontractwr GMC yn union cyn dyddiad dod i rym y Cyfarwyddydau hyn.



*Jo Larner*
Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Brechlynnau, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

22 Mai 2025

# YR ATODLEN Paragraff 2

## Manyleb Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Imiwneiddio (Brechiad Ffliw Tymhorol)

### 1. Cyflwyniad

Ers cryn amser mae brechu wedi bod yn rhan hanfodol o ddarpariaeth y GIG er mwyn diogelu dinasyddion a chymunedau. Mae gan faes Gofal Sylfaenol yng Nghymru hanes rhagorol o ddarparu rhaglenni imiwneiddio ac mae ganddo'r gweithlu medrus a phrofiadol sydd ei angen i ddarparu'r rhaglenni imiwneiddio presennol a rhaglenni imiwneiddio'r dyfodol.

Mae'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn nodi'r uchelgais o integreiddio ein holl raglenni brechu, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig i bontio i well trefniant o ran busnes fel arfer.

Fel rhan o hyn ac i gyflawni uchelgeisiau'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, bydd brechlynnau'r ffliw yn cael eu caffael a'u cyflenwi'n ganolog o hydref 2025. Bydd hyn yn sicrhau bod trefniadau brechu yn addas ar gyfer y dyfodol gyda budd seilwaith cenedlaethol, bod ganddynt elfen werth am arian gref a'u bod yn cynhyrchu canlyniadau sy'n seiliedig ar werth.

Bydd darparu'r Rhaglen Ffliw Tymhorol yn llwyddiannus yn barhaus yn gofyn am gydweithredu ar draws gofal sylfaenol a'r system iechyd ehangach er mwyn inni wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau, ac er mwyn sicrhau bod y brechlyn yn cael ei roi yn brydlon ac mewn modd diogel gan olygu bod niferoedd uchel o bobl yn ei gael.

Mae'r Fanyleb Gwasanaethau Gofal Sylfaenol o dan Gontract: Imiwneiddio ("PCCS:I") (Brechiad Ffliw Tymhorol) hon yn ymwneud yn benodol â darparu'r brechlyn ffliw tymhorol i bobl ifanc ac oedolion cymwys sydd wedi cyrraedd 16 oed ar neu erbyn 31 Awst (cyn dechrau'r tymor brechu) gan ddarparwyr Gofal Sylfaenol, a ddiffinnir at ddiben y fanyleb hon fel "darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen".

### 2. Y cefndir

Mae ein rhaglen frechu ffliw genedlaethol wedi bod yn rhedeg ers cyfnod sylweddol o amser, ac yn llawer hirach na'r rhaglen COVID-19. Yn y Deyrnas Unedig, mae brechiad ffliw tymhorol blynyddol

wedi cael ei gynnig i unigolion yn y grwpiau risg uchaf ers y 1960au ac i bob person dros 65 oed ers dros ugain mlynedd. Mae’r rhaglen frechu ffliw tymhorol i blant wedi bod ar waith ers degawd ac mae bellach yn cynnwys plant rhwng 2 a 15 oed, gyda’r mwyafrif ohonynt yn cael eu brechlyn yn yr ysgol.

Mae gan raglen ffliw tymhorol GIG Cymru gysylltiadau cryf â Byrddau Iechyd Lleol, timau nyrsio ysgolion, meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol, sy’n rhoi dros filiwn o frechlynnau ffliw bob tymor. Mae’r profiad hwn yn hanfodol i’n nod parhaus i frechu cynifer o bobl gymwys mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl.

Mae salwch anadlol blynyddol dros y gaeaf, gan gynnwys y ffliw, yn parhau i roi pwysau ar ein system iechyd yn y gaeaf. Amlygodd y pandemig y rôl hanfodol y mae brechiadau yn ei chwarae wrth achub bywydau a lleihau derbyniadau i’r ysbyty.

Mae’r broses o symud i gaffael cyflenwad brechlynnau ffliw tymhorol yn ganolog o hydref 2025 yn gyfle i ailedrych ar drefniadau yn unol â nodau ac uchelgeisiau’r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol ac i sefydlu dull modern, sy’n seiliedig ar gydweithrediad, o gynnwys ein gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol gwerthfawr yn y gwaith o ddarparu’r rhaglen flynyddol hon.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fydd yn rheoli’r gwaith o brynu a chyflenwi brechlynnau ffliw tymhorol i Gymru ar gyfer rhaglen frechu’r GIG.

Ni fydd angen i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sy’n cael eu comisiynu i ddarparu Rhaglen Frechu Ffliw Tymhorol y GIG i oedolion cymwys drwy’r PCCS:I hwn brynu unrhyw stoc o’r brechlyn ffliw tymhorol. Bydd pob brechlyn a ddarperir o dan y PCCS:I hwn yn rhad ac am ddim i’r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, at ddiben brechu carfannau cymwys.

Bydd pob brechlyn a ddarperir o dan y PCCS:I hwn yn rhad ac am ddim i berson cymwys sy’n cael y brechlyn. Mae gwasanaethau preifat ar gyfer darparu brechiad ffliw tymhorol i garfannau nad ydynt yn gymwys i gael brechlynnau’r GIG wedi’u heithrio o’r PCCS:I hwn. Ni chaiff darparwyr sy’n cynnig gwasanaethau preifat ddefnyddio stoc a ddarperir gan y GIG ar gyfer gwasanaethau preifat.

Bydd templed Cyfarwyddydau Grŵp Cleifion Cenedlaethol a Phrotocolau Cenedlaethol (pan fo hynny’n briodol) yn cael eu datblygu i gefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar yr holl fersiynau cyfredol

o ddogfennau a gymeradwywyd, a'u bod wedi eu hystyried, wrth ddarparu gwasanaethau o dan y PCCS:I hwn.

Dylai darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen gyfeirio at y Cylchlythyr(au) Iechyd Cymru perthnasol wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**3. Nodau'r Cynllun PCCS:I**

Mae'r PCCS:I hwn yn darparu'r mecanwaith i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen ymrwymo i drefniant comisiynu gyda'u Bwrdd Iechyd Lleol ("y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol") i ddarparu gwasanaeth brechu ffliw tymhorol y GIG i oedolion.

Bydd trefniadau indemniad presennol yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019(**1**) yn gymwys i'r personau hynny sy'n ymwneud â darparu brechlynnau ffliw o dan y PCCS:I hwn.

**4. Gweithio mewn clwstwr**

Anogir yn gryf ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen i weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau cydweithredol neu glwstwr proffesiynol, pa un a yw'r rhain wedi bod ar waith yn flaenorol ai peidio, ac ni waeth pa wasanaethau gofal sylfaenol y mae darparwr yn eu darparu fel arfer, er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf posibl o ran darparu a chael y brechlynnau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gweithio ar y cyd ag eraill o'r un gwasanaeth neu wasanaeth gwahanol i ddarparu brechlynnau.

**5. Y carfannau cymwys i gael eu brechu o dan y Cynllun PCCS:I (Ffliw)**

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn cynghori adrannau iechyd y Deyrnas Unedig ar imiwneiddio a chymhwystra ar gyfer brechlynnau ffliw. Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar y carfannau cymwys bob blwyddyn, a chadarnheir hynny drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru.

Bydd y drefn y cynigir brechiad i garfannau cymwys a blaenoriaeth y carfannau cymwys yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys nodweddion y brechlyn, cyngor JCVI a chyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, a bydd y cyfan yn cael ei gyfathrebu mewn Cylchlythyr Iechyd Cymru. Bydd y dyddiad ar gyfer dechrau'r tymor brechu yn cael ei gadarnhau mewn Cylchlythyr Iechyd Cymru hefyd.

---

(**1**) O.S. 2019/422 (Cy. 97).

Dim ond i'r gwasanaethau brechu a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n contractio i'w rhoi i garfannau cymwys y mae'r Fanyleb hon yn berthnasol.

Dylai darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sy'n cymryd rhan yn y PCCS:I hwn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r carfannau sy'n gymwys i gael eu brechu o dan y Fanyleb hon a'r drefn ddarparu. Ni fydd brechu y tu allan i'r carfannau cymwys penodedig yn arwain at daliad o dan y PCCS:I hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd ar gael ym mhenodau perthnasol y Llyfr Gwyrdd "Immunisation against infectious disease" yn:
https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book.

## 6. Yr amodau ar gyfer darparu gwasanaethau

Dim ond os bodlonir yr holl amodau a ganlyn y caiff darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen gymryd rhan yn y PCCS:I hwn i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Fanyleb hon—

(a) rhaid i bob person sy'n ymwneud â rhoi brechiadau—

   (i) meddu ar y sgiliau, yr hyfforddiant a (phan fo hynny'n gymwys) yr achrediad, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth,

   (ii) bod wedi ei hyfforddi'n ddigonol o ran rhoi brechiadau, storio brechlynnau, trin brechlynnau a'u cadw'n ddiogel, ac asesu a rheoli adweithiau niweidiol, a

   (iii) pan fo hynny'n gymwys, bod wedi ei hyfforddi i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer y lleoliad y mae'n gweithio ynddo ac y bydd darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen yn gyfrifol am ei ddarparu;

(b) rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen ac unrhyw berson sy'n ymwneud â rhoi brechlyn ffliw fod wedi cwblhau gweithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol drwy, er enghraifft, ddiweddaru ei addysg yn rheolaidd, mynd ar gyrsiau perthnasol a ddarperir gan y Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â dysgu hunangyfeiriedig;

(c) rhaid cadw cofnod clinigol o'r imiwneiddio â brechlyn ffliw ar System Imiwneiddio Cymru.

### 7. Talu am roi brechlyn ffliw o dan y PCCS:I hwn

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu i ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen sy'n gymwys i gael taliad yn unol â Chyfarwyddydau 5 i 6 o Gyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau o dan Gontract: Imiwneiddio) (Ffliw) 2025 ("y Cyfarwyddydau perthnasol") daliad o —

(a) ffi eitem gwasanaeth safonol, [£10.03 ar hyn o bryd] mewn cysylltiad â phob dos o frechlyn ffliw a roddir i berson o dan y PCCS:I hwn, a

(b) ffi atodol â chyfyngiad amser o £2.75 mewn cysylltiad â phob dos o frechlyn ffliw a roddir i berson o dan y PCCS:I hwn rhwng 1 Medi 2025 a 31 Mawrth 2027.

### 8. Manyleb y PCCS:I

#### Y carfannau cymwys

(a) Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, ynghyd â'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, yn mynd ati i gynnig brechlynnau ffliw mewn modd rhagweithiol ac ataliol. Gall hyn gynnwys systemau galw ac atgoffa cadarn i gysylltu ag unigolion o fewn carfannau cymwys, gyda'r nodau o—

   (i) sicrhau bod cynifer â phosibl ohonynt yn cael y brechiad er budd y personau hynny, a

   (ii) cyrraedd unrhyw dargedau iechyd y cyhoedd mewn cysylltiad â rhoi brechlynnau ffliw.

(b) Rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen gytuno â'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i—

   (i) sicrhau bod cynifer â phosibl o frechlynnau ffliw yn cael eu rhoi i'r grwpiau poblogaeth a bennwyd fel rhai cymwys yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru,

   (ii) derbyn y drefn y bydd carfannau cymwys yn cael eu brechu ynddi a'r amserlen y bydd brechlynnau'n cael eu rhoi o'i mewn, fel y'u pennir yn y Cylchlythyr Iechyd Cymru,

   (iii) yn achos contractwyr GMC, brechu pobl gymwys nad ydynt wedi eu cofrestru gyda'u practis, fel yr ystyrir yn briodol, mewn cytundeb â'r Bwrdd Iechyd Lleol, a

   (iv) storio brechlynnau'n briodol a bod yn gyfrifol am unrhyw stoc sydd wedi ei storio ar eu safle.

**Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo**

(c) Bydd y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd rhesymol i'r gwasanaeth sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Gall y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol neu Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu deunyddiau cyhoeddusrwydd a thaflenni gwybodaeth.

(d) Pan fo deunydd cyhoeddusrwydd nad yw'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y bwrdd iechyd neu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r gwasanaeth, rhaid i unrhyw ddeunyddiau a ddatblygir gan ddarparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen ddatgan bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan GIG Cymru, cynnwys logo GIG Cymru a chael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i'w ddefnyddio.

**Y model darparu**

(e) Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau bod darparu gwasanaethau o dan y PCCS:I hwn yn digwydd ochr yn ochr â gofynion contractiol presennol, ac nid yn eu lle.

(f) Anogir y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen i weithio ar y cyd â darparwyr eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen mewn cydweithrediad neu glwstwr proffesiynol er mwyn rhannu adnoddau a bod mor effeithlon â phosibl wrth ddarparu'r PCCS:I hwn. Fodd bynnag, dim ond ar ôl gwneud cais i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol y caniateir ailddosbarthu brechlynnau ymysg cyflenwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen.

(g) Rhaid i unrhyw berson sy'n rhoi brechlyn o dan y PCCS:I hwn wneud hynny yn unol â'r Cyfarwyddydau perthnasol, a'r Fanyleb PCCS:I hon, ar ôl cael cydsyniad, a chan ddilyn canllawiau yn y Llyfr Gwyrdd a'r Cylchlythyrau Iechyd Cymru perthnasol.

(h) Rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen sicrhau—

(i) bod pob person sy'n cael brechlyn o dan y PCCS:I hwn yn gymwys ac yn addas yn glinigol yn unol â chanllawiau clinigol cyfredol,

(ii) bod y person sy'n rhoi brechlyn yn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod cydsyniad y claf i'r brechiad (neu enw'r person a roddodd gydsyniad i'r brechiad a pherthynas y person hwnnw â'r claf) yn cael ei gofnodi yn unol â'r gyfraith a chanllawiau, a

(iii) bod y cydsyniad a geir o dan baragraff 8(h)(ii) yn cael ei gofnodi (fel y bo'n briodol) ar gyfer unrhyw rannu gwybodaeth angenrheidiol â'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau diogelu data.

(i) Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau bod y brechlyn a roddir i berson yn cyd-fynd â'r brechlynnau a argymhellir a nodir yn y Cylchlythyr Iechyd Cymru.

(j) Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau—

(i) y rhoddir y dos cywir o frechlyn ffliw, fel sy'n briodol yn glinigol, a

(ii) eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol a nodir yn y Llyfr Gwyrdd a'r Cylchlythyr Iechyd Cymru ynghylch y canlynol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i—

(aa) pa frechlyn ffliw yw'r un mwyaf addas ar gyfer pob carfan gymwys,

(bb) unrhyw gyfyngiadau amser brechu perthnasol, ac

(cc) unrhyw ganllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â rhoi'r gwahanol fathau o frechlyn a gwahanol garfannau cymwys, a roddir o bryd i'w gilydd.

(k) Os yw'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn gweithredu gwasanaeth yn seiliedig ar apwyntiadau, bydd amserlennu apwyntiadau yn digwydd drwy system archebu sefydledig, gan gynnwys systemau clinigol ymarferwyr cyffredinol.

**Personau sy'n ymwneud â rhoi'r brechlyn**

(l) Rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen sicrhau mai dim ond person y caniateir iddo wneud hynny yn unol â Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(**1**) sy'n rhoi brechiadau. Mae'r holl frechlynnau wedi eu dosbarthu'n feddyginiaethau presgripsiwn yn unig. Mae angen sicrhau bod fframwaith cyfreithiol priodol yn ei le cyn y gellir eu rhoi i garfannau cymwys. Rhaid bod gan unrhyw berson sy'n cyflenwi ac yn rhoi brechlyn awdurdod cyfreithiol i wneud hynny. Caiff yr awdurdod cyfreithiol hwn fod ar ffurf presgripsiwn ysgrifenedig ar gyfer claf

(**1**) O.S. 2012/1916.

penodol, Cyfarwyddyd Claf Penodol, Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion neu broses arall megis Protocol.

(m) Rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen sicrhau—

   (i) bod yr holl bersonau sy'n ymwneud â darparu'r PCCS:I hwn wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r achrediad angenrheidiol sy'n berthnasol i'w rôl, fel y nodir yn yr awdurdod cyfreithiol perthnasol;

   (ii) y cedwir cofnod o'r holl bersonau sydd wedi eu hawdurdodi i roi brechiadau o dan y PCCS:I hwn;

   (iii) bod gan yr holl bersonau sy'n ymwneud â darparu'r PCCS:I hwn fynediad at yr holl ganllawiau ac adnoddau perthnasol sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

(n) Rhaid i'r holl bersonau sy'n ymwneud â darparu'r PCCS:I hwn sicrhau—

   (i) bod awdurdod cyfreithiol dilys yn ei le ar gyfer brechu pob claf;

   (ii) eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer nodweddion staff a nodir yn yr awdurdod cyfreithiol perthnasol;

   (iii) eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant, yr achrediad (pan fo angen) a'r asesiad cymhwysedd angenrheidiol a nodir yn yr awdurdod cyfreithiol perthnasol;

   (iv) bod ganddynt fynediad at y canllawiau a'r adnoddau perthnasol i gynnal y brechu.

**Cyflenwi, storio a gwastraff**

(o) Gan weithio ar y cyd â darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol yn gyfrifol am archebu'r brechlyn a chydlynu'r cyflenwad i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen mewn ffordd amserol sy'n eu galluogi i weithredu eu cynlluniau darparu.

(p) Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau bod yr holl frechlynnau yn dod i law, ac yn cael eu storio, eu paratoi a'u cludo wedyn (pan fo hynny'n briodol) yn unol â chanllawiau perthnasol y gweithgynhyrchydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r holl Weithdrefnau Gweithredu Safonol cysylltiedig.

(q) Rhaid i bob oergell lle mae brechlynnau'n cael eu storio fod â thermomedr uchafswm/isafswm. Rhaid cymryd

darlleniadau tymheredd o ddangosydd thermomedr tymheredd yr oergell, a'u cofnodi, ar bob diwrnod gwaith a rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan fydd darlleniadau yn uwch neu'n is na'r tymheredd a argymhellir.

(r) Rhaid i weithdrefnau priodol fod ar waith i sicrhau bod stoc yn cael ei chylchdroi, bod dyddiadau dod i ben yn cael eu monitro a bod defnydd priodol yn cael ei wneud o stoc y brechlynnau fel bod cyn lleied o wastraff â phosibl. Bydd lefelau gwastraff yn cael eu hadolygu'n barhaus gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol a fydd yn gweithio gyda chontractwyr i sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl.

**Hygyrchedd a chydraddoldeb**

(s) Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch, yn briodol ac yn sensitif i anghenion pob person.

(t) Ni chaniateir i'r personau hynny sy'n gymwys i gael eu brechu gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn unol â'r PCCS:I hwn gael eu heithrio na'i chael yn arbennig o anodd cael gafael ar y PCCS:I hwn a'i ddefnyddio'n effeithiol oherwydd nodwedd warchodedig, fel y'i hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys Oed, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw neu Gyfeiriadedd Rhywiol.

(u) Dylai darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen sy'n ymgymryd â'r PCCS:I hwn weithio gyda'u Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i gefnogi cynlluniau cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i wneud brechu mor hygyrch â phosibl, gan gynnwys i'r rhai mewn cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

**Cadw cofnodion**

(v) Rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen ddefnyddio System Imiwneiddio Cymru—

(i) i gofnodi cydsyniad ar gyfer brechu;

(ii) i nodi unrhyw wrtharwyddion;

(iii) i gofnodi pa bryd y mae brechiad wedi ei roi, gan gynnwys y rhif swp, enw'r brechlyn a dyddiad dod i ben y gweithgynhyrchydd;

(iv) pan fo mwy nag un brechlyn yn cael ei roi, i gofnodi llwybr rhoi pob dos o'r brechlyn a safle pigiad pob dos o'r brechlyn;

(v) i gofnodi enw'r person sy'n rhoi'r brechlyn;

(vi) i gofnodi digwyddiadau andwyol sy'n codi ar unwaith;

(vii) i gofnodi tymheredd neu dymereddau oergell lle y mae brechlynnau'n cael eu storio, ddwywaith y dydd (ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd) ar bob diwrnod gwaith, yn unol â chanllawiau cenedlaethol;

(viii) i gofnodi cael danfoniad o'r brechlyn ar y diwrnod y ceir y danfoniad hwnnw;

(ix) i gofnodi balans gwirio stoc dyddiol y brechlyn ar bob diwrnod gwaith cyn diwedd pob diwrnod gwaith;

(x) i ddarparu tystiolaeth a chynhyrchu taliadau, gan gynnwys Gwirio Ôl-dalu.

(w) Drwy ddefnyddio System Imiwneiddio Cymru, bydd y cofnod o frechu person gan y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael ei fewnbynnu'n awtomatig dros nos ar bractis ymarferydd cyffredinol yr unigolyn i ddiweddaru cofnod GMC unigol y claf.

(x) Rhaid i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, drwy'r broses y cytunwyd arni—

(i) cyflenwi gwybodaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru am bersonau sydd wedi cael brechlyn ffliw, at ddiben monitro'r niferoedd sy'n cael y brechlyn yn lleol ac yn genedlaethol,

(ii) cyflenwi gwybodaeth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am bersonau sydd wedi cael brechlyn ffliw, at ddibenion talu a/neu wirio ôl-dalu,

(iii) darparu data i bractis arweiniol y grŵp cydweithredol neu glwstwr (pan fo hynny'n berthnasol), i Fyrddau Iechyd Lleol ac i Lywodraeth Cymru pan fydd angen, a

(iv) sicrhau codio cyson ar gyfer cipio data a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ynghylch llywodraethu gwybodaeth.

**Digwyddiadau andwyol**

(y) **Rhaid** adrodd ar bob digwyddiad andwyol sy'n ymwneud â brechlyn i—

(i) yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal

Iechyd (MHRA) gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn;

(ii) Tîm Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd Lleol (drwy ddefnyddio DATIX neu System Rheoli Pryderon Cymru Gyfan, neu drefniadau lleol presennol).

**Rhoi ar y cyd**

(z) Pan fo'r brechlynnau COVID-19 a Ffliw yn cael eu rhoi ar y cyd, dylid hysbysu cleifion am amseriad tebygol digwyddiadau andwyol posibl sy'n gysylltiedig â phob brechlyn. Dylai darparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen gyfeirio at yr holl ganllawiau perthnasol a'r holl ganllawiau sydd ar gael.

**Nwyddau traul wrth roi'r brechlyn**

(aa) Y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen fydd yn gyfrifol am ddarparu nwyddau traul priodol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y PCCS:I hwn.

**Diogelwch**

(bb) Rhaid i ddarparwyr sydd wedi eu cymryd ymlaen fod â mesurau diogelwch cadarn ar waith i sicrhau bod cleifion, staff a'r brechlynnau eu hunain yn ddiogel.

(cc) Rhaid dinistrio a difwyno unrhyw becynwaith sy'n ymwneud â brechlynnau yn y fath fodd sy'n ei atal rhag cael ei ailddefnyddio at unrhyw ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwaredu ffiolau gwag yn ddiogel ac yn ddiddos drwy'r ffrwd wastraff glinigol er mwyn sicrhau na ellir eu hailddefnyddio.

**9. Y cyfnod hysbysu**

(a) Y cyfnod hysbysu ar gyfer dod â'r cytundeb ar gyfer darparu gwasanaethau o dan y Fanyleb hon i ben fydd 90 o ddiwrnodau(**1**) ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol a'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen, oni bai y caiff ei amrywio drwy gytundeb ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw a'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen. Rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig gan nodi rhesymau manwl.

(b) Caniateir terfynu'r trefniadau rhwng darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen a Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol ar gyfer darparu brechlynnau ffliw yn unol â'r PCCS:I hwn a'r Fanyleb hon

---

(**1**) Neu gyfnod y cytunwyd arno gan y ddau barti os yw'n llai na 90 o ddiwrnodau.

os digwydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(i) yn awtomatig, os yw'r rhaglen frechu ffliw flynyddol yn dod i ben,

(ii) mae'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen dynnu'n ôl o'r trefniant,

(iii) mae'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol yn terfynu'r trefniant â'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen drwy roi 90 o ddiwrnodau(**1**) o hysbysiad i'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen,

(iv) mae'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol yn terfynu'r trefniant drwy roi 90 o ddiwrnodau(**2**) o hysbysiad pan fo'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau o dan y PCCS:I hwn, neu

(v) ni all y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen fodloni unrhyw un neu ragor o ofynion y PCCS:I hwn ac mae'n tynnu'n ôl ohono drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i'r perwyl hwnnw gyda rhesymau ategol ynghylch pam na all fodloni'r gofynion. Rhaid i hysbysiad o'r fath ddod i law'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol 90 o ddiwrnodau(**3**) cyn y dyddiad y mae'r darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen yn dymuno tynnu'n ôl ei ddarpariaeth o wasanaethau o dan y PCCS:I hwn.

**10. Cais i gymryd rhan**

Llofnod y darparwr sydd wedi ei gymryd ymlaen:

Dyddiad:

---

(**1**) Neu gyfnod y cytunwyd arno gan y ddau barti os yw'n llai na 90 o ddiwrnodau.

(**2**) Neu gyfnod y cytunwyd arno gan y ddau barti os yw'n llai na 90 o ddiwrnodau.

(**3**) Neu gyfnod y cytunwyd arno gan y ddau barti os yw'n llai na 90 o ddiwrnodau.